

# Prifysgol Abertawe

Nodyn Arweiniol Rheoli Gwastraff  
NARG11 – Bwrdd Plastr

<b>Awdur:</b>	Fiona Wheatley
<b>Cymeradwywyd gan:</b>	Fiona Abbott
<b>Dyddiad Adolygu:</b>	09/11/2018

<b>Nodyn Arweiniol Rheoli Gwastraff NARG11</b>	
<b>Bwrdd Plastr</b>	
Lleoliad Cynhyrchu	Amrywiol
EWC	17-08-02
Math	Gwastraff a Reolir
Dull Gwaredu	Didoli i'w ailgylchu
Math o Fin/Sach	<b>Sgip/Sachau ailgylchu clir</b>

### **Gofynion Dyletswydd Gofal**

Dylai unrhyw fusnes neu gorff cyhoeddus sy'n cynhyrchu deunyddiau gwastraff ddefnyddio'r hierarchaeth gwaredu gwastraff ar gyfer pob ffrwd er mwyn lleihau cyfanswm y gwastraff a anfonir i safleoedd gwaredu. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu sicrhau bod pob math o wastraff yn cael ei ddioli ac y gwaredir arno drwy'r ffrwd gywir. Felly, ni ddylid anfon gwastraff i'r safle gwastraff dinesig oni bai nad oes unrhyw ddewis arall.

Yn 2009 pennodd y Gyfarwydddeb Tirlenwi ddiwygiedig na chaniateir cymysgu gwastraff sy'n cynnwys gypswm â gwastraff bioddiraddadwy ar safleoedd tirlenwi bellach. Mae'r newid hwn yn y rheoliadau yn berthnasol i wastraff sy'n cynnwys deunyddiau y gellir eu nodi eu bod ar sail gypswm, er enghraifft: bwrdd plastr, laminiadau thermol, plastrau gypswm wedi'u hatgyfnerthu â gwydr, teils cilfwa a nenfwd. Sylffad yw gypswm, sef y deunydd crai ar gyfer bwrdd plastr, ond mae'n perthyn i'r dosbarth o ddeunyddiau nad ydynt yn beryglus.


Mae'n rhaid i'r Brifysgol, a contractwyr a benodir ganddi, ddioli bwrdd plastr gwastraff i'w ailgylchu dan y rheoliadau newydd.

### **Cyfarwyddiadau Gwaredu**

Dylai contractwyr sy'n ymgymryd â phrosiectau bach fynd â deunyddiau gwastraff o'r safle ar ôl gorffen, a dylent sicrhau bod unrhyw fwrdd plastr wedi'i ddioli'n gywir. Dylai contractwyr sy'n ymgymryd â phrosiectau mawr ddioli bwrdd plastr i'w ailgylchu drwy ddefnyddio sgiopiau penodol ar gyfer bwrdd plastr ar y safle.

Sylwer: Os tybir bod unrhyw fwrdd plastr wedi'i halogi â deunydd peryglus, cysylltwch â'r Tîm Cynaliadwyedd ([estates-waste@abertawe.ac.uk](mailto:estates-waste@abertawe.ac.uk)) neu'r Tîm Iechyd a Diogelwch ([healthandsafety@abertawe.ac.uk](mailto:healthandsafety@abertawe.ac.uk)) am gyngor pellach.

### **Storio Allanol**



Ffigur 1: Sgip caeedig Prifysgol Abertawe

Os oes unrhyw fwrdd plastr gwastraff yn sgil prosiectau bach a wneir gan staff y Brifysgol, dylid ei roi ar wahân mewn sachau clir. Ni ellir rhoi gwastraff bwrdd plastr mewn unrhyw finiau olwyn du ar gyfer deunyddiau ailgylchu na deunyddiau na ellir eu hailgylchu. I gael gwared ar wastraff bwrdd plastr, cyflwynwch gais am waith drwy borth [Desg Gymorth](#) y Brifysgol, gan gynnwys côd cost.

### **Costau Gwaredu**

I holi am gostau cael gwared ar fwrdd plastr, e-bostiwch [estates-waste@abertawe.ac.uk](mailto:estates-waste@abertawe.ac.uk).

### **Labelu**

Gweler y templed

**Am arweiniad pellach, e-bostiwch [estates-waste@abertawe.ac.uk](mailto:estates-waste@abertawe.ac.uk)**



**plasterboard**